

AIL AGOR MEHEFIN 29/06/20

TREFNIADAU YMARFEROL DYDDIOL

Am fanylion o drefniadau ymarferol dyddiol gweler isod:

CLUDIANT: Er mwyn cadw eich plant yn ddiogel, fe anogir pob rhiant i drefnu cludiant i'r ysgol ar gyfer eu plantyn. Bydd ein bysus arferol yn rhedeg, ond ni allwn sicrhau lle i bob disgybl oherwydd cyfyngiadau pellhau corfforol. Bydd disgwyl i rieni adael i ni wybod, yn yr holiadur isod, eu bwriadau o ran cludo eu plant i'r ysgol. Bydd hyn yn ein caniatâu i gynllunio ar gyfer pob blwyddyn.

CYRRAEDD Y SAFLE YN Y BORE:

Cerddwyr a Bysiau

Byddwn yn cwrdd â'r plant wrth y glwyd a'r man gollwng arferol wrth iddynt gyrraedd ac yn sicrhau bod ein disgyblion yn cadw at ddisgwyliadau pellhau corfforol. Ni fydd y glwyd ar ran uchaf Heol Cadifor ar agor fel arfer i gerddwyr. Disgwylir i blant sydd yn cyrraedd ar hyd y ffordd yma fel arfer i gerdded ar hyd Heol Cadifor ac yna dod i fyny'r brif heol i'r ysgol. Disgwylir i bob disgybl gadw at ddisgwyliadau pellhau cymdeithasol wrth deithio i'r ysgol.

Ceir

Ni fydd caniatâd i rieni ollwng disgyblion yn y man gollwng arferol – dim ond y bysiau fydd yn gollwng disgyblion yma. Bydd modd i rieni ollwng eu plant yn ddiogel yn un o feysydd parcio'r ganolfan hamdden yn hytrach na'r ardaloedd arferol. Bydd staff ar gael i gefnogi gyda hyn.

GADAEL Y SAFLE AR DDIWEDD Y DYDD YSGOL:

Cerddwyr a bysiau:

Bydd y disgyblion sydd yn cerdded ac yn dal bysiau yn cael eu rhyddhau am 14:45. Mae trefniadau yn eu lle i sicrhau bod disgyblion yn cynnal pellhau cymdeithasol ar bob adeg wrth adael. Bydd staff ar ddyletswydd i sicrhau bod y prosesau yma yn digwydd yn ddiogel.

Ceir:

Byddwn yn rhyddhau disgyblion sydd yn derbyn lifft gan rieni / deulu am 15:00 fel nad yw pawb yn gadael y safle ar yr un pryd. Disgwylir i rieni barcio yn un o feysydd parcio;r Ganolfan Hamdden er mwyn gallu casglu eu plant yn ddiogel.

MYNEDIAD I'R ADEILAD:

Disgwylir i bob disgybl fynd yn syth i olchi ei ddwylo wedi cyrraedd yr adeilad. I hwyluso'r trefniant diogelwch pwysig yma, trefnir y bydd pob disgybl yn dod i mewn i'r adeilad trwy'r fynedfa wrth y labordai Gwyddoniaeth. Bydd cyfle iddynt olchi eu dwylo'n drylwyr yn y Labordai Gwyddoniaeth, cyn mynd i'w hystafelloedd dysgu. Bydd staff ar gael i gynorthwyo gyda hyn.

AMSERAU'R DYDD:

Bydd y diwrnod ysgol yn cael ei gwtogi, ond byddwn yn darparu'r amser dyddiol arferol ar gyfer cefnogi lles a dysgu ein disgyblion. Byddwn yn torri ein cyfnod cinio i 25 munud, gydag egwyl bore o 15 munud. Bydd grwpiau o ddisgyblion yn derbyn eu cyfnodau egwyl a chinio ar adegau gwahanol er mwyn osgoi gor gymysgu. Gweler yr amserau yma:

Amser	Gweithgaredd
08:15 - 08:45	Disgyblion yn cyrraedd
08:45 – 10:45	Bloc dysgu 1 (gan gynnwys amser egwyl wedi ei ddarwahanu)



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: vgg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



**BUDDSODDWYR
MEWN POBL**

Aur



10:45 – 13:00	Bloc dysgu 2 (gan gynnwys cinio wedi'i ddarwahanu)
13:00 – 14:45	Bloc dysgu 3
14:45	Disgyblion bysiau a cherdded yn gadael
15:00	Disgyblion â chludiant rhieni yn gadael

EGWYL A CHINIO:

Ni fyddwn yn darparu byrbrydau na chinio o ffretur yr ysgol. Felly, bydd disgwyl i bob disgybl ddod â byrbrydau iachus a phhecyn bwyd ei hun bob tro y bydd yn mynychu'r ysgol (gan gynnwys disgyblion y rhieni sydd yn weithwyr allweddol ar gyfer y gwasanaeth gwarchod argyfwng). Bydd cyfleoedd addas gan bob disgybl i fwyta yn ystod yn dydd, ond ni fydd caniatâd rhannu bwyd gyda disgyblion eraill. Bydd disgwyl bod pob disgybl yn dilyn arferion hylendid dwylo cyn ac ar ôl bwyta.

GWISG YSGOL:

Nid oes disgwyl i ddisgyblion ddod yn eu gwisg ysgol yn ystod y tymor yma. Gofynnwn i rieni sicrhau bod ein disgyblion yn gwisgo dillad glân ar bob diwrnod maent yn mynychu'r ysgol, er mwyn lleihau'r risg o ledaenu.

OFFER YSGOL:

Bydd disgwyl i bob disgybl ddod ag offer addas ar gyfer dysgu mewn ysgol ar draws eu pynciau e.e. offer ysgrifennu, offer Mathemateg yn eu bag personol eu hun. Ni fydd caniatâd i ddisgyblion rhannu offer yn yr ysgol.

DYFAIS DIGIDOL:

Mae caniatâd gan ddisgyblion (a byddwn yn eu hannog) i ddod â'r ddyfais ddigidol sydd ganddyn nhw ar gyfer gweithio o bell i'r ysgol ar y diwrnodau maent i mewn. Bydd yn ein caniatâu i ddatblygu ein model o ddysgu cyfunol, fydd mor allweddol i ddysgu pob un o'n disgyblion yn ystod y cyfnod yma ac ym mis Medi. Cyfrifoldeb y disgybl fydd i sicrhau diogelwch ei ddyfais tra yn yr ysgol ac ni fydd caniatâd gan ddisgyblion i rannu dyfeisiau yn yr ysgol.



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: yggy.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



**BUDDSODDWYR
MEWN POBL**

Aur

